

Salpingectomi Dwyochrog Oportiwistaidd (Tynnu'r ddau diwb Ffalopaidd ar adeg diffwrwythloni neu driniaeth abdomenol arall)

Beth yw salpingectomi dwyochrog oportiwistaidd?


Salpingectomi dwyochrog oportiwistaidd yw triniaeth i dynnu'r tiwbiau ffalopaidd ar yr un pryd a thriniaeth abdomenol arall (e.e.

hysterectomi neu ddiffwrwythloni. Mae hyn er mwyn gostwng y risg o ddatblygu cancer yr ofari yn y dyfodol.

Awgryma ymchwil gyfredol bod llawer o ganserau yn yr ofari yn dechrau yn y tiwbiau ffalopaidd (y tiwbiau sy'n cysylltu'r ofariau i'r groth). Canfyddir cancer yr ofari yn hwyr yn aml oherwydd nad yw'r arwyddion a'r symptomau bob amser yn amlwg.

Ffigur 1 Y groth a strwythurau amgylchynol

Ofariau a thiwbiau ffalopaidd
Croth
Gwain
Ceg y groth



Beth mae'r tiwbiau ffalopaidd yn ei wneud?

Mae ffrwythloni'r wyau yn digwydd yn y tiwbiau ffalopaidd sy'n cysylltu'r ofariau i'r groth. Nid oes bellach angen y tiwbiau pan fo menyw yn penderfynu nad yw am feichiogi yn y dyfodol. Mae diffwrwythloni'n ffurf o atal cenhedlu parhaol sy'n digwydd drwy flocio neu dynnu'r ddau diwb ffalopaidd.

Beth sydd gan diwbiau ffalopaidd i'w wneud gyda chanser yr ofari?

Dangosodd astudiaethau diweddar fod rhai mathau o ganser yr ofari yn dechrau yn y tiwbiau ffalopaidd. Am y rheswm hwn, gall tynnu'r tiwbiau ffalopaidd cyn i ganser ddatblygu ostwng yn sylweddol y risg o ddatblygu cancer yr ofari yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw pob cancer yr ofari yn dechrau yn y tiwb ffalopaidd, felly nid yw'r risg yn sero ac mae siawns fach o hyd o ddatblygu cancer yr ofari.

Mae rhai menywod yn wynebu risg sylweddol uwch o ddatblygu cancer yr ofari megis cludwyr mwtaniad genynnau BRCA. Yn y grŵp hwn argymhellir bod y ddau

diwb ffalopaidd a'r ofariau yn cael eu tynnu cyn i ganser ddatblygu (salpingo-oophorectomi dwyochrog proffylactig). Fodd bynnag, cysylltir tynnu'r ofariau â menopos cynnar. Felly, mewn menywod **nad** ydynt mewn perygl cynyddol o ganser yr ofari, nid yw tynnu'r ofariau'n cael ei argymhell.

Pam y dylwn i gael tynnu fy nhiwbiau ffalopaidd?

Yn ystod diffrwythloni – mae diffrwythloni'n ddull parhaol o atal cenhedlu benywaidd. Mae'n golygu blocio neu dynnu'r ddau diwb ffalopaidd i'ch atal chi rhag beichiogi. Mae gan dynnu'r tiwbiau y fantais o ostwng yn sylweddol eich risg o ddatblygu canser yr ofari yn y dyfodol. Mae diffrwythloni fel arfer yn driniaeth laparosgopig (llawdriniaeth twll clo). Gellir hefyd ei wneud ar yr un pryd â thoriad cesaraidd.

Yn derbyn llawdriniaeth ar yr abdomen yn barod – os ydych eisoed yn cael llawdriniaeth ar eich abdomen (bol) gan obstetregydd neu gynaeolegydd (e.e. hysterectomi, toriad cesaraidd, laparosgopi diagnostig neu driniaeth laparosgopig) ac nad ydych bellach yn dymuno beichiogi, gallech gael tynnu eich tiwbiau ffalopaidd yn ystod yr un llawdriniaeth. Mae hyn yn gostwng eich risg o ddatblygu canser yr ofari yn y dyfodol.

Sut mae'r tiwbiau ffalopaidd yn cael eu tynnu?

Yn ystod diffrwythloni

Bydd eich gynaeolegydd yn defnyddio llawdriniaeth laparosgopig (twll clo) i dynnu'r ddau diwb ffalopaidd (salpingectomi dwyochrog). Ni fydd yr ofariau yn cael eu tynnu. Cysylltir hyn â llai o boen, llai o greithio a dychwelyd yn gyflymach at weithgareddau arferol.

Yn derbyn llawdriniaeth ar yr abdomen yn barod – bydd yr union fanylion yn dibynnu ar y llawdriniaeth ar yr abdomen a gynlluniwyd, y bydd eich tîm gofal iechyd yn ei esbonio i chi. Yn ychwanegol i'r llawdriniaeth ar yr abdomen, rydych wedi ei gynllunio, caiff y ddau diwb ffalopaidd eu tynnu (salpingectomi dwyochrog). Ni fydd yr ofariau yn cael eu tynnu.

Beth yw'r risgiau

Dangosodd astudiaethau fod cael tynnu eich tiwbiau ffalopaidd (salpingectomi dwyochrog oportiwnistaidd) yn gysylltiedig ag amser sydd ychydig bach yn hirach ar gyfer y llawdriniaeth. Fodd bynnag, ni chaiff ei gysylltu gydag unrhyw gynnydd mewn risg o'i gymharu â dulliau eraill o ddiffwrwythloni neu lawdriniaeth ar yr abdomen yn unig (e.e. hysterectomi).

Beth yw'r manteision a'r anfanteision?

Manteision	Anfanteision
Mae cael tynnu eich tiwbiau ffalopaidd wedi dangos gostyngiad sylweddol yn eich risg o ddatblygu canser yr ofari yn y dyfodol.	Nid yw cael tynnu eich tiwbiau ffalopaidd yn lleihau eich risg o ddatblygu pob math o ganser yr ofari yn y dyfodol ac nid yw'r risg yn sero.
Mae cael tynnu eich tiwbiau ffalopaidd yn ddull parhaol o atal cenhedlu.	Mae hwn yn ddull parhaol o atal cenhedlu ac ni ellir ei wrthdroi os ydych yn newid eich meddwl.
Ni chysylltir tynnu'r tiwbiau ffalopaidd ag unrhyw risg gynyddol o'i gymharu â dulliau eraill o ddiffwrwythloni neu lawdriniaeth ar yr abdomen yn unig (e.e. hysterectomi).	Cysylltir pob gweithred lawfeddygol â chymhlethdodau posibl. Fe'i cysylltir gydag amser sydd ychydig bach yn hirach ar gyfer y llawdriniaeth.

Beth yw'r dewisiadau amgen?

Ar gyfer diffwrwythloni – mae llawer o ddulliau atal cenhedlu eraill y gallech eu hystyried. Mae dulliau hirdymor yn cynnwys dyfais mewngroth (y coil) neu fewnblaniad neu bigiad atal cenhedlu e.e. Depo Provera®

Crynodeb

Mae salpingectomi dwyochrog oportiwnistaidd yn cynnwys tynnu'r ddau diwb ffalopaidd ar yr un pryd â thriniaeth abdomen arall neu fel dull diffwrwythloni gyda'r

bwriad o ostwng eich risg o ddatblygu canser yr ofari yn y dyfodol. Mae hwn yn ddull parhaol o atal cenhedlu.

Ffynhonnell

The Distal Fallopian Tube as the Origin of Non-Uterine Pelvic High-Grade Serous Carcinomas Scientific Impact Papur rhif. 44 Tachwedd 2014. RCOG

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English**